



Diffibriliwr

Mae diffibriliwr y Clwb yn mynd ar bob taith

Cyfarwyddiadau sut i'w ddefnyddio

Gall CPR cynnar a diffibrilio prydlon
(o fewn y 1-2 funud cyntaf) arwain at
siawns o 50% i oroesi ataliad y galon

Gall unrhyw un ei ddefnyddio

Rhywun i alw 999

Rhywun i ddechrau adfywio'r galon a'r
ysgyfaint (30 o wasgiadau i 2 anadl)

Rhywun i nôl y diffibriliwr

Eraill i feddwl am gadw'r claf yn
gynnes, sych a gweddus



Lle i gysylltu
y padiau

Golau melyn

Troi Ymlaen

“Yn y galon mae pob mynydd”


IBR

Er cof am Gareth Pierce

SCHILLER

Dadansoddi
Rhythm

Rhoi Sioc




Cam 1 – Gwthiwch



Bydd y diffibriliwr yn siarad efo chi o hyn ymlaen

Cysylltwch y padiau electrod

Os ydi'r cyswllt yn iawn bydd y golau melyn yn diffodd




Gofalwch fod y croen yn sych cyn rhoi y
padiâu ymlaen

Os na fydd y golau melyn yn difodd...

Arbrofwch efo pa un o'r padiâu sydd ddim
yn ei le yn iawn drwy rhoi pwysau ar y pad,
ei ddatgysylltu a'i ail gysylltu


Cam 2 – Gwthiwch




Bydd y diffibriliwr yn parhau i siarad efo chi

Bydd yn gofyn i chi stopio CPR

Bydd y diffibriliwr yn dadansoddi rhythm y galon a phenderfynu os y gellir rhoi sioc



Cam 3 – Rhoi Sioc




Os bydd y diffibriliwr yn penderfynu y gellir rhoi sioc bydd yn dweud wrthy ch i bwyso'r botwm "Sioc"

Gofalwch bod neb yn cyffwrdd y claf a bod dim byd dargludol yn cyffwrdd 'chwaith



Os nad oedd sioc yn cael ei argymhell neu os nad oedd y sioc yn llwyddiannus bydd y diffibriliwr yn parhau i siarad hefo chi ac yn dweud unai:

Rhoi sioc arall




Neu


Parhau efo adfywio'r galon a'r ysgyfaint (30 o wasgiadau i 2 anadl) am ddau funud cyn mynd nol i **Cam 2** eto



Os oes arwyddion bod y galon yn gweithio bydd
rhaid rhoi y claf i orwedd fel hyn ond peidiwch
a thynnu y padiau electrod i ffwrdd



Mae taflen
gyfarwyddiadau yng
nghê s y diffibriliwr



Cofiwch na fedrwch chi neud drwg i'r claf

Trwy ddefnyddio'r diffibriliwr mae'n bosib
y byddwch chi yn medru arbed bywyd